## YR ADRAN ADDYSG A PHLANT

**Ein Gweledigaeth .... Cymuned yw Sir Gaerfyrddin lle mae plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir cefnogaeth i ddysgwyr gyflawni eu potensial addysgol llawn**

# Adroddiad ar Berfformiad a Chyflawniad Ysgolion ym Mlwyddyn Academaidd 2014-15

**Robert Sully**
**Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

Diogelu Plant a Gwella Safonau Addysg i Bawb

**Cynnwys:**


| **1. Safonau: Ein llwyddiannau yn 2014-15** | | **Rhif Tudalen** |
|---|---|---|
| *1.1* | *Cymorth, Her ac Ymyrraeth er mwyn gwella deilliannau* | *3* |
| *1.1.1* | *Y Cyfnod Sylfaen* | *3* |
| *1.1.2* | *Cyfnod Allweddol 2* | *4* |
| *1.1.3* | *Cyfnod Allweddol 3* | *5* |
| *1.1.4* | *Cyfnod Allweddol 4* | *6* |
| *1.1.5* | *Cyfnod Allweddol 5* | *7* |
| *1.2* | *Presenoldeb – Ysgolion Cynradd* | *7* |
| *1.3* | *Presenoldeb – Ysgolion Uwchradd* | *8* |

| **2** | **Deilliannau Arolygiadau Ysgol** | |
|---|---|---|
| *2.1* | *Negeseuon allweddol* | *9* |
| *2.2* | *Y Proffil Deilliannau Arolygiadau, 2014-15* | *10-11* |

| **3** | **Datblygu Gwerthoedd a Sgiliau ar gyfer Dysgu Gydol Oes** | |
|---|---|---|
| *3.1* | *Y Cyfnod Sylfaen* | *11* |
| *3.2* | *Lleoliadau nas Cynhelir* | *12* |
| *3.3* | *Hybu Treftadaeth a Diwylliant Cymru, Datblygu Cynaliadwy, a Dealltwriaeth Fyd-eang* | *13* |
| *3.4* | *Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu* | *22* |
| *3.5* | *Ysgolion Iach* | *22* |
| *3.6* | *Criw Celf* | *24* |
| *3.7* | *Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion Sir Gaerfyrddin* | *25* |
| *3.8* | *Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Sir Gaerfyrddin* | *25* |
| *3.9* | *Gwasanaeth Cyrhaeddiad Teithwyr Sir Gaerfyrddin* | *26* |
| *3.10* | *Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol* | *27* |
| *3.11* | *Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin* | *28* |
| *3.12* | *Arwain y Dysgu* | *29* |

| **4** | **Egluro Jargon** | 31 |
|---|---|---|


# 1. Safonau: Ein llwyddiannau yn 2014-15

### *1.1 Cymorth, Her ac Ymyrraeth er mwyn gwella deilliannau*

Mae'r gweithgareddau cymorth, her ac ymyrraeth ar draws ein hysgolion wedi parhau i ganolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau i holl ddysgwyr Sir Gaerfyrddin. Mae'r graffiau data perfformiad isod yn rhoi trosolwg o'n cynnydd, ein cryfderau a'r meysydd i'w gwella ymhellach.


### *1.1.1 Y Cyfnod Sylfaen:*

- Mae'r graff hwn (canran y disgyblion a gyrhaeddodd y Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) fel tuedd 3 blynedd) yn dangos gwelliant cyson ac yn dangos ein bod wedi codi i safle llawer uwch.




| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Target | 81.6 | 82.0 | 88.7 | 87.3 | 87.8 | 88.3 |
| Result | 81.6 | 84.1 | 86.8 | | | |
| All Wales | 83.0 | 85.2 | 86.8 | | | |
| Rank | 16 | 16 | 10 | | | |

- Mae'r graff hwn yn dangos gwelliant cyson ym mherfformiad ein disgyblion eFSM (h.y. disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim) dros bedair blynedd ac yn ei gymharu â dysgwyr nFSM (nad ydynt yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn Sir Gaerfyrddin a Chymru.





| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| CCC eFSM | 65.6 | 64.3 | 69.5 | 75.5 |
| CCC nFSM | 85.8 | 85.3 | 87.8 | 89.4 |
| Wales eFSM | 66.2 | 69.2 | 72.4 | 75.1 |
| Wales nFSM | 84.5 | 86.9 | 88.6 | 90.0 |

### *1.1.2 Cyfnod Allweddol 2 (CA2)*

- Mae'r graff hwn (canran y disgyblion a gyrhaeddodd y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) fel tuedd 5 mlynedd) yn dangos tuedd barhaus ar i fyny ynghyd â lefelau hunan-herio uwch.


**Canlyniadau yn ôl Blwyddyn Academaidd**




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Target | 76.0 | 83.0 | 84.7 | 85.5 | 88.7 | 88.7 | 89.2 | 89.7 |
| Result | 81.9 | 83.0 | 85.4 | 87.4 | 88.2 | | | |
| All Wales | 80.3 | 82.8 | 84.3 | 86.1 | 87.7 | | | |
| Rank | 8 | 10 | 10 | 8 | 10 | | | |

- Mae'r graff hwn yn dangos perfformiad ein disgyblion eFSM (disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim) dros bum blynedd ac yn ei gymharu â dysgwyr nFSM (nad ydynt yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim) yn Sir Gaerfyrddin a Chymru. Gwelir gostyngiad bach eleni ond rydym yn gyson â pherfformiad Cymru Gyfan.

**DPC CA2 % disgyblion sy'n cyflawni'r duedd eFSM/nFSM**





| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| CCC eFSM | 67.6 | 70.9 | 72.9 | 78.3 | 75.1 |
| CCC nFSM | 85.0 | 86.8 | 87.8 | 89.3 | 90.9 |
| Wales eFSM | 63.6 | 66.7 | 69.8 | 71.9 | 75.1 |
| Wales nFSM | 84.2 | 86.7 | 88.1 | 89.6 | 90.8 |

### 1.1.3 *Cyfnod Allweddol 3 (CA3)*

- Mae'r graff hwn (canran y disgyblion a gyrhaeddodd y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC)) yn dangos tuedd ar i fyny dros bum mlynedd ynghyd â lefelau hunan-herio cynyddol.


**Canlyniadau yn ôl Blwyddyn Academaidd**




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Target | 62.0 | 72.0 | 75.0 | 77.5 | 86.5 | 85.6 | 86.1 | 86.6 |
| Result | 68.4 | 74.3 | 77.1 | 84.5 | 85.1 | | | |
| All Wales | 68.1 | 72.7 | 77.2 | 81.0 | 83.9 | | | |
| Rank | 12 | 9 | 13 | 4 | 8 | | | |

- Mae'r graff hwn yn dangos gostyngiad bach ym mherfformiad ein disgyblion CA3 eFSM (disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae ein perfformiad yn dal uwchlaw perfformiad Cymru Gyfan.


**DPC CA3 % disgyblion sy'n cyflawni'r duedd eFSM/nFSM**




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| CCC eFSM | 45.3 | 47.7 | 54.5 | 74.6 | 69.8 |
| CCC nFSM | 73.1 | 78.6 | 81.0 | 86.3 | 88.3 |
| Wales eFSM | 43.4 | 48.4 | 53.8 | 61.3 | 65.9 |
| Wales nFSM | 73.7 | 78.0 | 82.3 | 85.6 | 88.1 |


### 1.1.4 *Cyfnod Allweddol 4*

- Mae’r graff hwn (canran y disgyblion a gyrhaeddodd y dangosydd Lefel 2 cynhwysol (L2c) dros y pum mlynedd diwethaf) yn dangos ein llwyddiant mwyaf hyd yma o ran y dangosydd allweddol hwn. Mae rhagori ar 60% yn llwyddiant rhagorol. Mae’n dangos yn glir ymdrechion cyfun a phwrpasol ein hysgolion a’n swyddogion i godi safonau.




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Target | | 56.0 | 53.9 | 58.0 | 61.1 | 61.6 | 62.1 | 62.6 |
| Result | 54.7 | 51.1 | 53.9 | 58.7 | 61.1 | | | |
| All Wales | 50.1 | 50.7 | 52.7 | 55.4 | 57.9 | | | |
| Rank | 5 | 12 | 11 | 8 | 7 | | | |

- Mae’r graff hwn yn dangos gwelliant cyson ym mherfformiad ein dysgwyr eFSM Lefel 2 cynhwysol (gan eu cymharu yn erbyn dysgwyr nFSM a data Cymru Gyfan). Rydym wedi rhagori ar berfformiad ‘eFSM Cymru L2c’ yn gyson er 2011.





| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| CCC L2+ eFSM | 26.2 | 27.6 | 29.3 | 28.9 | 33.7 |
| CCC L2+ nFSM | 59.9 | 55.0 | 57.9 | 63.5 | 66.2 |
| Wales L2+ eFSM | 22.0 | 23.4 | 25.8 | 27.8 | 31.6 |
| Wales L2+ nFSM | 55.7 | 56.6 | 58.5 | 61.6 | 64.1 |

### *1.1.5 Cyfnod Allweddol 5*

2 Mae’r graff hwn yn dangos ein lefel berfformio gyson uchel (uwchlaw ffigurau Cymru gyfan er 2009) am y saith mlynedd diwethaf ar Drothwy Lefel 3 (2 Safon Uwch neu ragor neu gymhwyster cyfatebol).


**Trothwy Lefel 3 CA5 2014/15**



| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CCC L3 | 97.2 | 97.3 | 97.8 | 97.1 | 97.3 | 98.6 | 98.1 |
| Wales L3 | 95.9 | 94.8 | 96.5 | 96.9 | 96.5 | 97.1 | 97.0 |

### *1.2 Presenoldeb – Perfformiad Ysgolion Cynradd:*

**Presenoldeb Cynradd yn ôl Blwyddyn Academaidd**





| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Target | 93.5 | 93.5 | 94.0 | 94.0 | 95.0 | 95.4 | 95.5 | 95.6 |
| Result | 93.1 | 93.7 | 93.5 | 95.0 | 95.2 | | | |
| All Wales | 93.3 | 93.9 | 93.7 | 94.8 | 94.9 | | | |
| Rank | 14 | 13 | 15 | 6 | 5 | | | |

Mae Presenoldeb Cynradd yn unol â’r targed ac mae’r canlyniad wedi gwella o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol (95.2% o’i gymharu â 95.0%). Mae ein safle cymharol yng Nghymru wedi gwella i 5ed o 6ed sy’n welliant sylweddol o fod yn y 15fed safle ddwy flynedd yn ôl.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi cael rhieni i ymwneud mwy. Mae gweithgareddau monitro a rhannu data rheolaidd a mwy cywir yn gymorth i benaethiaid.

### *1.3 Presenoldeb – Ysgolion Uwchradd*




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Target | 91.1 | 91.5 | 92.0 | 92.5 | 94.2 | 94.4 | 94.5 | 94.6 |
| Result | 91.0 | 91.4 | 92.0 | 93.9 | 94.2 | | | |
| All Wales | 91.4 | 92.1 | 92.6 | 93.6 | 93.8 | | | |
| Rank | 16 | 20 | 20 | 8 | 9 | | | |

Mae Presenoldeb Uwchradd yn unol â'r targed ac mae'r canlyniad wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (94.2% o'i gymharu â 93.9%). Y safle dros dro a roddwyd inni yw 9^fed^ (1 yn is na'r flwyddyn flaenorol) yn codi o 20^fed^ yn 2013/14. Ein safle disgwyliedig (wedi'i seilio ar y % o ddisgyblion eFSM fesul ALI) yw 10^fed^ - rhywbeth yr ydym wedi rhagori arno gyda'r canlyniad hwn. Mae ad-drefnu'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi arwain at fwy o ymwneud gan Benaethiaid ynghyd â monitro a rhannu data mwy rheolaidd a chywir.

**Crynodeb o'r cryfderau a meysydd i'w gwella ymhellach:**

**Ein cryfderau allweddol:**

- Gwelwyd cynnydd mewn perfformiad ar bob dangosydd diwedd Cyfnod Allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4.
- Cofnodwyd ein canlyniad gorau erioed ar drothwy L2c (5 Safon Uwch, A* - C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg)…gan ragori ar 60%, rhywbeth y mae pob awdurdod yn ei chwennych.
- Mae cyflawniad disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim o ran y Dangosydd Cyfnod Sylfaen ac 'L2c' Cyfnod Allweddol 4 yn dal i wella.
- Mae ein safle o fewn Cymru wedi gwella'n sylweddol o ran y dangosyddion diwedd Cyfnod Sylfaen ac L2c Cyfnod Allweddol 4.

- Mae’r lefelau presenoldeb ar y lefel gynradd ac uwchradd yn dal i ddangos gwelliant ynghyd â thuedd gyson ar i fyny.

**Meysydd i’w gwella ymhellach**

- Parhau i wella perfformiad disgyblion sy’n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Parhau i wella’r ddarpariaeth a’r perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen
- Parhau i wella deilliannau disgyblion Mwy Galluog a Thalentog

## 2. Deilliannau Arolygiadau Ysgol

### 2.1 Negeseuon allweddol o Arolygiadau 2014-15 *(seiliwyd ar 20 arolygiad ysgol)*

**Prif gryfderau:**

Gofynnwyd i dair ysgol yn Sir Gaerfyrddin ddarparu astudiaethau achos ar gyfer gwefan Estyn yn disgrifio’r ymarfer rhagorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

1. Ysgol Gynradd Brynaman yw’r ysgol gyntaf yn Sir Gaerfyrddin i gael ei barnu’n ‘Rhagorol’ ym mhob maes o dan y fframwaith arolygu presennol: y ddwy farn gyffredinol, y tri chwestiwn allweddol a’r deg dangosydd ansawdd.
2. Barnwyd bod Ysgol Gyfun Coedcae yn ‘Rhagorol’ mewn deg o’r pymtheg maes: Rhagolygon Gwella, CA2 Darpariaeth ac CA3 Arweinyddiaeth, Lles, Profiadau Dysgu, Gofal, Cymorth ac Arweiniad, Amgylchedd Dysgu, Arweinyddiaeth, Gwella Ansawdd a Phartneriaethau.
3. Barnwyd bod Ysgol Gynradd Llanmilo yn ‘Rhagorol’ o ran Rhagolygon Gwella, Lles a Gwella Ansawdd.
4. Barnwyd bod ‘Profiadau Dysgu’ ac ‘Arweinyddiaeth’ yn dda neu’n well mewn 75% o’r ysgolion.
5. Barnwyd bod ‘Gofal, Cymorth ac Arweiniad’ ac ‘Amgylcheddau Dysgu’ yn dda neu’n well mewn 95% o’r ysgolion.
6. Barnwyd bod ‘Partneriaethau’ yn dda neu’n well mewn 100% o’r ysgolion (fel yr oedd yn 2013-14).
7. Mae’r perfformiad o ran ‘Gwella Ansawdd’ yn dal ar i fyny gyda 65% o’r ysgolion yn cael eu barnu’n dda neu well (53% yn 2010/11).

**Meysydd i'w gwella:**

**Tua hanner yr ysgolion a arolygwyd -**

- Gwella cyrhaeddiad (yn aml mewn perthynas â'r Cyfnod Sylfaen).
- Cynyddu lefel yr her yn y cynllunio neu'r tasgau (yn bennaf mewn perthynas â disgyblion mwy galluog).
- Datblygu 'asesu ar gyfer dysgu' (yn bennaf o ran ansawdd adborth).

**Tua thraean yr ysgolion a arolygwyd -**

- Gwella presenoldeb (mewn cymhariaeth ag ysgolion 'tebyg').
- Sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu.
- Gwella'r safonau ysgrifennu (yn y ddwy iaith).

### *2.2 Proffil Deilliannau Arolygiadau 2014-15*

1. Mae'r tablau canlynol yn dangos canran y graddau a gyflawnwyd o ran 'Dangosyddion Ansawdd' Estyn gan yr ysgolion* a arolygwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2014-15 (20 ysgol - 18 cynradd, 1 uwchradd ac 1 arbennig).
   *mae pob ysgol yn cynrychioli 5%

| | **Rhagorol** | **Da** | **Digonol** | **Anfoddhaol** |
|---|---|---|---|---|
| **Safonau** | 5% | 55% | 40% | 0% |
| **Lles** | 15% | 50% | 35% | 0% |
| **Profiadau Dysgu** | 10% | 65% | 25% | 0% |
| **Addysgu** | 5% | 55% | 40% | 0% |
| **Gofal, Cymorth ac Arweiniad** | 10% | 85% | 5% | 0% |
| **Amgylchedd Dysgu** | 10% | 85% | 5% | 0% |
| **Arweinyddiaeth** | 10% | 65% | 15% | 10% |
| **Gwella Ansawdd** | 15% | 50% | 20% | 15% |
| **Partneriaethau** | 10% | 90% | 0% | 0% |
| **Rheoli Adnoddau** | 5% | 55% | 35% | 5% |

2. Mae’r tabl canlynol yn dangos nifer yr ysgolion a osodwyd yn holl gategorïau gwahanol Estyn dros y pum mlynedd academaidd ddiwethaf.

| | **2010-11 (17 ysgol)** | **2011-12 (16 ysgol)** | **2012-13 (23 ysgol)** | **2013-14 (19 ysgol)** | **2014-15 (20 ysgol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yn Arwain y Sector (Astudiaeth Achos)** | - | 6% | 9% | 5% | 15% |
| **‘Ysgolion da’ eraill (dim categori)** | 35% | 25% | 26% | 32% | 20% |
| **Monitro gan yr ALl** | 47% | 6% | 13% | 16% | 20% |
| **Monitro gan Estyn** | 18% | 44% | 48% | 47% | 35% |
| **Angen Gwelliant Sylweddol** | - | 13% (2 ysgol) | 4% (1 ysgol) | - | 10% (2 ysgol) |
| **Mesurau Arbennig** | - | 6% (1 ysgol) | - | - | - |
| **Cyfanswm mewn Categori** | 65% | 69% | 65% | 63% | 65% |

## 3. Datblygu Gwerthoedd a Sgiliau ar gyfer Dysgu Gydol Oes

Mae ysgolion Sir Gaerfyrddin yn ymdrechu’n ddiflino i ddarparu addysgu a dysgu o safon uchel trwy ystod eang o brofiadau ysgogol a rhyngweithiol i bawb. Bydd ein dysgwyr yn datblygu llawer o sgiliau a gwerthoedd pwysig o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen hyd at y Chweched Dosbarth. Mewn byd o heriau a chyfleoedd sy'n newid yn barhaus mae'r gwerthoedd craidd a'r sgiliau allweddol hyn yn hanfodol i lwyddiant a mwynhad pob dysgwr. Yn y rhan hon o'r adroddiad rydym yn dathlu'r amrywiaeth eang o gyfleoedd a gynigir yn ein hysgolion ac yn hoelio'r sylw ar gyfranogiad a chyflawniad. Mae'r cyfleoedd hyn yr un mor bwysig â'r safonau a chyrhaeddiad, yr agweddau mwy traddodiadol y rhoddwyd sylw iddynt yn Adran Un. I ddatblygu dysgwyr gydol oes amryddawn mae'n rhaid cael cwricwlwm o gyfleoedd amrywiol ac arloesol fel y rhai a gofnodir yn y trosolwg canlynol.

### *3.1 **Y Cyfnod Sylfaen***

Gydol blwyddyn academaidd 2014-15 rydym wedi parhau i ddarparu cymorth i ysgolion Sir Gaerfyrddin i gyflwyno a gweithredu Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru. Mae Grant y Cyfnod Sylfaen wedi cynnal y dyraniad dirprwyedig i

ysgolion i gyflogi Cynorthwywyr Addysgu ychwanegol i'w galluogi i weithio tuag at y cymarebau a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi darparu arbenigedd ac arweiniad Swyddog Hyfforddiant Cyfnod Sylfaen sydd wedi rhoi rhaglen hyfforddi effeithiol ar waith, ynghyd â chymorth ychwanegol, uniongyrchol, mewn ysgolion. Canolbwyntiodd rhaglen hyfforddi 2014-15 yn bennaf ar gyflwyno Proffil Disgyblion newydd y Cyfnod Sylfaen. Mae Grant y Cyfnod Sylfaen hefyd yn parhau i gynnal Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, er mwyn cefnogi cyflwyno darpariaeth dysgu rhan amser i blant 3 oed mewn lleoliadau nas cynhelir ar draws Sir Gaerfyrddin. Canolbwyntiodd yr hyfforddiant i leoliadau nas cynhelir ar ddatblygiad iaith cynnar gan ddefnyddio arian Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar.

### *3.2 Lleoliadau Nas Cynhelir*

Mae 43 o Leoliadau Nas Cynhelir ledled Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd yn cyflwyno darpariaeth dysgu rhan amser i blant 3 oed. Yn ystod blwyddyn academaidd 2014-2015, cafodd naw Lleoliadau Nas Cynhelir eu harolygu gan Estyn. Mae Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth werthfawr i staff i'w galluogi i gyflwyno darpariaeth dysgu effeithiol. Roedd y rhaglen hyfforddiant yn canolbwyntio ar sgiliau Llafaredd ac ar ddatblygu strategaethau allweddol i ddatblygu'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith ym mhob lleoliad.
Crëwyd canolfan 'Cwtsh Cyffro' (wedi'i lleoli yng Nghanolfan Griffith Jones, Sanclêr) i arddangos arferion da ar draws pob maes dysgu a darparu yn y Cyfnod Sylfaen. Fe'i defnyddir at ddibenion hyfforddi a chan asiantaethau allanol sy'n gweithio gyda phlant. Mae'r Awdurdod Lleol (ALl) yn parhau i gefnogi lleoliadau a darparu hyfforddiant safonol i sicrhau eu bod yn gweithio i'w llawn botensial.

| | 2014-2015 |
|---|---|
| Nifer y lleoliadau nas cynhelir a arolygwyd | 9 |
| % y lleoliadau nas cynhelir mewn categori 'gweithgarwch dilynol' | 45% |
| Monitro gan yr ALl | 2 |
| Monitro gan Estyn | 3 |
| Angen Gwelliant Sylweddol | Dim un |
| Mesurau arbennig | Dim un |

### 3.3 *Hybu Treftadaeth a Diwylliant Cymru, Datblygu Cynaliadwy, a Dealltwriaeth Fyd-eang:*



**Codi Caerau:**

Cafodd siarter iaith newydd i ysgolion Sir Gaerfyrddin ei lansio yng Nghaerfyrddin. Lansiwyd Codi Caerau Sir Gâr, ein siarter iaith newydd, mewn digwyddiad yn Yr Atom, y ganolfan Gymraeg newydd ar Stryd y Brenin yn y dref. Nod y siarter yw annog pobl ifanc i ddysgu Cymraeg ac i ddefnyddio'r iaith, gan ddatblygu o ddim ond siarad Cymraeg ag athrawon i ddefnyddio'r iaith o gwmpas yr ysgol, gyda ffrindiau a rhieni, a defnyddio technegol Gymraeg fel apiau a gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg a gwylio rhaglenni Cymraeg. Daw'r gair 'Caer' yn Codi Caerau o enw tref Caerfyrddin ei hun. Mae'r gair Caer yn tarddu o'r Lladin castrum sy'n golygu castell neu gadarnle. Dywedodd yr aelod sy'n gyfrifol am y Gymraeg ar fwrdd gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin, y Cynghorydd Mair Stephens, wrth y lansiad: "Diben y siarter yw cefnogi dwyieithrwydd. Fel rhywun sydd wedi dysgu'r Gymraeg gallwch weld manteision ei siarad hi." Dywedodd fod pobl sy'n ddwyieithog yn dysgu meddwl y tu hwnt i'r ffiniau arferol. Dywedodd Prif Swyddog Addysg y cyngor, Gareth Morgans, mai diben Codi Caerau Sir Gâr oedd creu cadarnleoedd i'r Gymraeg yn y sir. Rhoddodd y bardd a'r awdur Mererid Hopwood gyflwyniad addysgiadol ar ddatblygiad y Gymraeg. Dywedodd swyddog siarter iaith Cyngor Sir Gwynedd, Gwenan Ellis Jones, fod siarter Gwynedd yn cael ei ddefnyddio i annog disgyblion i siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Disgrifiodd Elfed Morgan Morris, pennaeth Ysgol Llandygai yng Ngwynedd, fel yr oedd y siarter a chymeriad Cled Celt yr ysgol yn cael eu defnyddio i helpu rhieni i werthfawrogi gwerth bod yn ddwyieithog ac i ysbrydoli disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cynhaliodd Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd weithdai ar y siarter iaith, rhoddodd y DJ Marky G (Marc Griffiths) sgwrs ar ddefnyddio radio mewn ysgolion a pherfformiodd disgyblion Ysgol Bancffosfelen 'Rap Siarter Sir Gâr' hwyliog a oedd wedi'i ysgrifennu ar y cyd rhwng y disgyblion a Bardd Plant Cymru, Aneirin Karadog.

Dywedodd yr aelod sy'n gyfrifol am addysg a gwasanaethau plant ar fwrdd gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth Jones: "Mae'n ddiwrnod hanesyddol yn Sir Gaerfyrddin wrth inni lansio'r siarter iaith newydd. Mae'n gam arall ymlaen wrth inni geisio adfer safle'r Gymraeg yn y sir."

***Cliciwch ar y ddolen You Tube i wrando ar ddisgyblion Ysgol Bancffosfelen yn perfformio 'Rap Codi Caerau'***

https://www.youtube.com/watch?v=cWd14mirS-I

**Darllen ein ffordd i fwynhad a llwyddiant...**

1. **Cwis Llyfrau Cymraeg 2014-15**

   Bu 42 o dimau o'n hysgolion cynradd yn cymryd rhan mewn 2 rownd a gynhaliwyd yn Sir Gaerfyrddin. Bu nifer sylweddol (232) o ddisgyblion yn trafod ac yn cyflwyno deunyddiau wedi'u seilio ar eu darllen a'u dysgu. Daeth Ysgol Llannon yn 3$^{ydd}$ yn y Rownd Genedlaethol a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 16$^{eg}$ Mehefin 2015 (Bl 3 / 4).

2. **'Sgwad Sgwennu'**

   Cymerodd chwe deg o ddisgyblion CA3 'Mwy Galluog a Thalentog' (30 cyfrwng Cymraeg a 30 cyfrwng Saesneg) ran yn ein gweithdai Sgwad Sgwennu (sgrifennu creadigol) gydol y flwyddyn. Gyda chymorth 'Llythrennedd Cymru', Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Chyngor Sir Caerfyrddin, roedd y gweithdai'n fodd i gael cysylltiad uniongyrchol â beirdd ac awduron adnabyddus a rhyngweithio â nhw, i helpu sgiliau ysgrifennu'r disgyblion.

3. **Bookslam 2014-15!**

- Dyfarnwyd 1$^{af}$ ac 2$^{il}$ i ddwy ysgol o Sir Gaerfyrddin, Ysgol Gynradd Tre Ioan ac Ysgol Glanyfferi, yn Rownd Derfynol Genedlaethol Cystadleuaeth Cyngor Llyfrau Cymru a gynhaliwyd ar 9$^{fed}$ Mehefin 2015.

- Cafodd tîm Tre Ioan ei goroni'n Bencampwyr Cenedlaethol, gan guro ysgolion o bob rhan o Gymru i ennill Gwobr Bookslam – gwobr fawr ei bri – ar lwyfan Theatr Brycheiniog, Aberhonddu.
- Enillodd tîm Tre Ioan £150 i'r ysgol hefyd i'w wario ar lyfrau, ac enillodd Ysgol Glanyfferi £100. Roedd hyn yn llwyddiant arbennig i'r ddwy ysgol – ac yn anrhydedd wirioneddol i Sir Gaerfyrddin.
- Yn ddiweddarach yn nhymor yr haf, ymwelodd Paul Manship, un o'r awduron yng nghystadleuaeth Bookslam, â Sir Gaerfyrddin i weithio gyda rhai o'n hysgrifenwyr mwy galluog a thalentog.
- Caiff y Sgwadiau Sgwennu eu trefnu gan y Tîm Llythrennedd i ysbrydoli a datblygu doniau ysgrifenwyr ifanc Sir Gaerfyrddin, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ymysg yr awduron gwadd diweddar mae Mererid Hopwood, Eurig Salisbury a Phil Carradice.



Uwchben: Disgyblion Ysgol Gynradd Tre Ioan – Pencampwyr Cenedlaethol Bookslam, 2015

Islaw: Tîm Bookslam Ysgol Glanyfferi – Yn yr Ail Safle, 2015



**Partneriaeth y 'Scarlets'**




Disgyblion o Ysgol y Bynea yn dilyn y llwybr llythrennedd a rhifedd newydd ar Barc y Scarlets

Mae swyddogion o'r Adran Addysg wedi gweithio gyda staff o'r Scarlets i gynhyrchu deunyddiau addysgol i sicrhau bod modd cael mwy o ffocws addysgol i ymweliadau â'r stadiwm ac i ganiatáu ar gyfer gweithgareddau addysgol dilynol mwy priodol mewn ysgolion. Mae'r grŵp wedi cael cyrchu at gofnodion hanesyddol y clwb a ffotograffau ac wedi cael y cyfle i ddefnyddio pob rhan bron o'r safle..

I gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd mae llwybr llythrennedd a rhifedd dwyieithog wedi cael ei ddatblygu. Cafodd y llwybr ei dreialu gan Ysgol Rhys Prichard ac Ysgol y Bynea.

Mae Ysgolion Arloesi Digidol Sir Gaerfyrddin wedi cydweithio i gynhyrchu cyfres o e-lyfrau dwyieithog a fydd ar gael ar Hwb+.


**Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**



**Disgyblion a staff o Ysgol Penboyr gyda'u gwobr yn yr Amgueddfa Genedlaethol**


- Bob blwyddyn, mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn gwahodd ysgolion o bob rhan o Gymru i gynnal prosiectau treftadaeth ac i'w cyflwyno i'r gystadleuaeth dreftadaeth genedlaethol hon.
- Roedd eleni yn flwyddyn arall lwyddiannus i ysgolion Sir Caerfyrddin, gyda chwe chynnig yn ennill gwobrau.
- Cafodd y prosiectau a gyflwynwyd gan ysgolion y Sir eu harddangos yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili dros yr haf.
- Dyfarnwyd Tarian Hanes Gynradd yr Amgueddfa Genedlaethol i Ysgol Penboyr a chynrychiolodd yr ysgol y sector cynradd yn y Senedd yn yr achlysur i ddathlu 25ain Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig.

## Gwasanaeth Benthyca Arteffactau Addysg Grefyddol a Hanes



Celtiaid/Celts 1

| | Eitemau yn y Cawell Storio/ Items in Storage Crate | Nifer/Quantity |
|---|---|---|
| 1. | Helm Waterloo/Waterloo Helmet | 1 |
| 2. | Trowsus/Trousers | 1 |
| 3. | Clogyn/Cloak | 1 |
| 4. | Tlws/Brooch | 1 |
| 5. | Sgyrt/Skirt | 1 |
| 6. | Llyfr/Book: Caradog and the Romans | 1 |
| | **Eiternau sydd ddim yn y Cawell Storio/Items not in Storage Crate** | |
| 7. | Tarian/Shield | 1 |
| 8. | Gwayffon/Spear | 1 |
| 9. | Cleddyf/Sword | 1 |
| 10. | Gwain/Sheath for Sword | 1 |



- Yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili mae casgliad o flychau benthyca sy'n help i ddysgu hanes ac Addysg Grefyddol.
- Mae dros 30 o flychau hanes sy'n amrywio o wisgoedd milwyr Rhufeinig i eitemau'r cartref o'r 1960au a'r 1970au.
- Mae nifer tebyg o flychau Addysg Grefyddol ac ynddynt arteffactau crefyddol fel Sgroliau Tora, matiau gweddïo a setiau Diwali.
- Mae'r casgliadau'n gymorth dysgu o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol Tri. Mae paciau adnoddau newydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd
- Eleni defnyddiodd pum deg pedwar o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin a 4,204 o ddisgyblion y gwasanaeth benthyca rhad ac am ddim hwn.

- Mae pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin wedi'i chofrestru ar y rhaglen Eco Ysgolion.
- Erbyn diwedd mis Mawrth 2015 roedd baner werdd Eco Ysgolion Rhyngwladol wedi cael ei dyfarnu i naw deg pump o ysgolion yn y sir.
- Mae pum ysgol ar hugain: **Ysgol Saron, Ysgol Feithrin Rhydaman, Ysgol y Castell, Ysgol Gymraeg Rhydaman, Ysgol Gynradd Llanmiloe, Ysgol Dewi Sant, Ysgol Fabanod Copperworks, Ysgol Tre Ioan, Ysgol Maesllyn, Pentip School, Ysgol Carwe, Ysgol Llanddarog, Ysgol Llandybie, Ysgol Pont-henri, Ysgol y Ddwylan, Ysgol y Tymbl, Ysgol y Bedol, Ysgol y Dderwen, Ysgol Llannon, Ysgol Gorslas, Ysgol Nantgaredig, Ysgol Babanod Llangennech, Ysgol Iau Llangennech, Ysgol Penbre, Ysgol Tre Ioan ac Ysgol Peniel** wedi cael y Wobr Platinwm (ysgolion sydd wedi perfformio yn unol â safon y faner werdd am fwy nag wyth mlynedd).
- Cyflwynodd disgybl o Ysgol Uwchradd Coedcae y cynnig buddugol yng nghystadleuaeth Gohebydd Ifanc yr Amgylchedd - adroddiad fideo - yn y grŵp oedran 15-18 oed. Cymerodd ysgolion o 25 gwlad ran yn y digwyddiad hwn.
- Mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddi cyfnos i Eco Ysgolion eleni, gyda nifer dda yn bresennol. Gwnaeth hynny ar y cyd â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.



Disgyblion o Ysgol Tre Ioan ar helfa sbwriel

**Gweithgareddau Masnach Deg**




- Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn sir Masnach Deg ers bron i chwe blynedd. Mae ysgolion y sir wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at hyn. Mae saith deg pedwar o ysgolion wedi cofrestru ar y cynllun Masnach Deg ac mae 14 ysgol wedi gweithio'u ffordd drwy'r rhaglen lawn ac wedi ennill baner Masnach Deg ar ôl derbyn Gwobr Cyflawnwr Teg.
- Mae cystadleuaeth farddoniaeth cwmni siocled Divine wedi hen ennill ei phlwyf yn y flwyddyn addysg yng Nghymru. Bu nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y sir yn llwyddiannus iawn yn y digwyddiad hwn dros y blynyddoedd. Eleni, enillodd Ysgol Nantgaredig yr ail wobr yng nghategori cynradd y digwyddiad.

**Cysylltiadau ag Ysgolion Rhyngwladol**

Yn ystod y flwyddyn, cafodd 18 o ysgolion Sir Gaerfyrddin help i sefydlu partneriaethau ag ysgolion rhyngwladol neu i gynnal partneriaethau a oedd yn bodoli eisoes. Mae'r cysylltiadau hyn yn fodd i ddatblygu llawer o'r sgiliau a'r gwerthoedd sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth fyd-eang, yn cynnwys meddwl yn feirniadol a pharchu amrywiaeth. Maent hefyd yn darparu cyd-destun dilys ac ysgogol ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TG.

**Cysylltu Dosbarthiadau**

Mae'r rhaglen hon, sy'n cael ei hariannu gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, yn meithrin cysylltiadau â gwledydd sy'n datblygu gyda'r nod o gyfoethogi'r cwricwlwm a chyfnewid syniadau er mwyn gwella'r addysgu a'r dysgu. Maent yn helpu pawb dan sylw i wella'u dealltwriaeth o faterion byd-eang ac yn help i ddatblygu cyfeillgarwch rhyngwladol ag eraill, sy'n para'n hir.

**Lesotho**

- Cymerodd ysgolion Tre Ioan, Penbre, Pentip, Glan-y-môr, a Dyffryn Taf ran mewn ymweliadau ar y cyd â phartner ysgolion o Lesotho eleni.

- Eleni oedd 30ain pen-blwydd Dolen Cymru Lesotho, yr elusen sydd wedi bod yn gyfrwng i feithrin cysylltiadau cynaliadwy, gwerth chweil, rhwng pobl Cymru a'i gefeillwlad, Lesotho. Ymysg y dathliadau roedd cyngerdd *Mokete* uchel ei broffil a gynhaliwyd yn y Gyfnewidfa Lo, Caerdydd. Roedd y cyngerdd yn cael ei gynnal yr un pryd ag ymweliad athrawon Basotho a chawsant eu cyfarch â chân, dawns a pherfformiadau drama gan ddisgyblion o 7 o ysgolion Sir Gâr.
- Croesawodd ysgolion Parc Waundew, Y Castell a Phentip athrawon gwirfoddol o Lesotho ar leoliadau 7 wythnos, y tro cyntaf i hyn ddigwydd yng Nghymru.

**Malawi a Ghana**

- Cymerodd Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth ran mewn prosiect cyffrous yn cysylltu ag ysgolion yn y ddwy wlad gyferbyniol hyn yn Affrica. Y thema y canolbwyntiwyd arni oedd Tegwch a Chydraddoldeb, gan edrych ar ganlyniadau byd-eang Masnach Deg yn ogystal â chynaliadwyedd amgylcheddol.

**Jamaica**

- Lluniwyd cysylltiadau newydd ag ysgolion yn Jamaica drwy ysgolion Halfway, Stebonheath a Choedcae gan ddefnyddio thema Hunaniaeth a Diwylliant fel ffocws.

**Cysylltiadau Ewropeaidd**

Mae rhaglen Comenius y bu rhyw 30 o ysgolion Sir Gâr yn ymwneud â hi dros y blynyddoedd, yn bennaf gyda chymorth Rhwydwaith Wide Minds (WiMi), yn dod i ben eleni. Yn ogystal â darparu cyfleoedd i staff ddatblygu'n broffesiynol, mae llawer o ddisgyblion, yn cynnwys rhai o gefndiroedd difreintiedig, wedi ehangu eu gorwelion ac wedi cael hwb i'w hyder drwy ymweld ag ysgolion partner dramor.

- Cwblhaodd Gwenllian, Llangadog, Swiss Valley, Dewi Sant, Bro Dinefwr, Y Bedol a Heol Goffa i gyd eu partneriaethau Comenius yn llwyddiannus.
- Cafodd prosiect Bwyta'n Iach Bro Dinefwr gyda Denmarc ei arddangos gan y Cyngor Prydeinig ar ymweliad â'r Senedd ar Fawrth 10fed, 2015.
- Gwahoddwyd Y Bedol hefyd i'r Senedd ynghyd â'i phartneriaid o Tahiti, Gran Canaria, Gwlad Pwyl, y Ffindir a'r Eidal i hyrwyddo eu prosiect, o dan y teitl "Gwnaed yn …". Drwy'r prosiect mae'r ysgol wedi cryfhau ei chyswllt â busnesau lleol ac wedi cyflwyno'r disgyblion i fyd gwaith a globaleiddio.

- Mae Coedcae a Bro Myrddin wedi dechrau gweithio ar brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy rhaglen newydd yr UE – Erasmus +. Mae Coedcae yn canolbwyntio ar Chwaraeon, Byw'n Iach a Chyfle Cyfartal, tra mae Bro Myrddin yn edrych ar Ddatblygu Cynaliadwy a Democratiaeth.

**Rhaglen Dysgu Byd-eang - Cymru**

Mae'r rhaglen newydd hon, sy'n cael ei hariannu gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, wedi dechrau creu rhwydwaith o ysgolion arweiniol sydd ag arferion da yn barod ym maes Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Nod y rhaglen yw cynorthwyo athrawon ym 50% o ysgolion Cymru i arfogi'u disgyblion â'r wybodaeth a'r sgiliau i wneud cyfraniad cadarnhaol mewn byd sydd dan ddylanwad globaleiddio.

- Cafodd Ysgol Gymraeg Rhydaman, Tre Ioan, Dyffryn Taf, a Glan y môr/Bryngwyn eu dewis fel Ysgolion Arweiniol a byddant yn dechrau creu eu rhwydweithiau o ysgolion lleol y flwyddyn nesaf.



*Llun: Ysgol y Bedol yn ymweld â'r Senedd fel rhan o 'Brosiect Comenius'*

3.4 **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu:**

Gwelwyd datblygiadau pellach gennym yn y maes darparu allweddol hwn yn ystod blwyddyn academaidd 2014-15:

- Cafodd pum aelod staff (tri o'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion a dau athro ar secondiad) eu hailachredu fel hyfforddwyr Hwb+ cymwysedig i ddarparu cefnogaeth i ysgolion i ddatblygu'u defnydd o Hwb.
- Cafodd Cyfran 5 o'r rhaglen i gyflwyno Hwb+ i ysgolion cynradd 1.5 diwrnod o hyfforddiant Hwb (yn ganolog ac mewn ysgolion). Canolbwyntiai'r hyfforddiant ar

‘J2E’ fel offeryn effeithiol i ddarparu tystiolaeth o waith digidol disgyblion a’i gefnogi o safbwynt Asesu ar gyfer Dysgu, ac ar offeryn ‘Playlist’ ar gyfer creu a rhannu adnoddau digidol yn effeithlon.

- Cafodd platfformau ar-lein ar gyfer Cymunedau Dysgu Proffesiynol Arweinwyr Canol Uwchradd eu creu gan ddefnyddio Rhwydwaith Hwb ac ehangwyd yr aelodaeth i gynnwys arweinwyr canol yn ysgolion Sir Benfro hefyd. Cafodd staff hyfforddiant ym maes Office 365, J2E a Rhestrau Chwarae a rennir drwy Hwb.
- Cafodd Penaethiaid Adrannau TGCh uwchradd Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro hyfforddiant Rhaglennu Cyfrifiadurol gan Technocamps (wedi’i ariannu drwy’r Gronfa Gydweithredu Ranbarthol).
- Cafodd ‘Rhwydweithio Cynradd’ ei gynnal fel cyfres o sesiynau gweithdy. Daeth nifer dda i’r sesiynau a chawsant dderbyniad da.
- Mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi dechrau treialu tudalennau llywodraethwyr ar Hwb.
- Trosglwyddwyd system gwefannau ysgolion yr ALl i system Umbraco sy’n cydweddu â systemau symudol/traws blatfform. Bu’r tîm TGCh yn helpu gyda’r gwaith cychwynnol o’i chyflwyno i ysgolion, ac ymgymerodd â’r holl waith cefnogi a hyfforddi dilynol.

### 3.5 Ysgolion Iach

Mae’r Cynllun Ysgolion Iach ar ei 12fed flwyddyn gyda chyfanswm o 117 o ysgolion yn cymryd rhan ar hyn o bryd. Llwyddodd 16 ysgol i gwblhau cam arall o fewn y cynllun eleni a chyflwynwyd eu placiau iddynt yn y seremoni wobrwyo flynyddol a gynhaliwyd ym Mharc y Scarlets ar 3.7.15. Mae 7 ysgol yn anelu at y Wobr Ansawdd Genedlaethol ar hyn o bryd, y wobr uchaf y gellir eu hennill o fewn y cynllun. Cafodd Nantgaredig ymweliad ailasesu ar 27.11.15 ac mae wedi llwyddo i gyrraedd y safon unwaith eto.

**Gweithio mewn partneriaeth**

*Grŵp Llywio Cam-drin yn y Cartref:*

Mae’r Cynllun Ysgolion Iach yn aelod o’r grŵp hwn bellach yn sgil sefydlu partneriaethau gwaith gyda Swyddog Diogelu’r Awdurdod Lleol, Swyddogion Cam-drin yn y Cartref a Seicolegwyr Addysgol (Plant). Cyfrannodd hyn tuag at gynhyrchu Protocol drafft i Ysgolion Sir Gaerfyrddin ar Gam-drin yn y Cartref. Mae’r cynllun yn pwysleisio pwysigrwydd addysgu plant am Berthnasoedd Iach o fewn y cwricwlwm ABCh.

*Grŵp Llywio Cyfleoedd Chwarae Digonol:*

Fel aelod o'r grŵp hwn, rydym yn cyfrannu tuag at weithio mewn partneriaeth a chefnogi'r 'Pecyn Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'. Mae'r gwaith hwn yn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin gael chwarae'n gorfforol.

*<u>Grŵp Atal Gordewdra ymysg Plant Sir Gaerfyrddin:</u>*

Mae'r Cynllun Ysgolion Iach yn parhau i gyd-drefnu a chadeirio cyfarfodydd y Grŵp Atal, sydd wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus am ddwy flynedd. Mae gennym sawl cam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu'r Grŵp, megis cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymysg disgyblion.

*<u>Y Fforwm Gwrth Fwlio:</u>*

Caiff y fforwm ei gyd-drefnu gan y Cynllun Ysgolion Iach, a chynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 29.6.15. Ei nod yw mynd i'r afael â bwlio'n uniongyrchol drwy weithredu cryfach mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o gynlluniau gwrth fwlio fel 'Arolwg Gwrth Fwlio Pobl Ifanc'.

**Gweithdai a hyfforddiant i ddisgyblion yn ymwneud ag Iechyd a Lles**

Rydym wedi darparu gweithdai Delwedd Corff a Hunan-barch yn Ysgol y Strade i ddisgyblion Blwyddyn 10 a hefyd wedi darparu sesiynau gweithdy ar Berthnasoedd Iach a Bwlio yn Ysgolion Cynradd Abernant a Brynsierfel (i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6). Cafodd cyfanswm o chwe deg dau o ddisgyblion Blwyddyn 12 o Fro Dinefwr, Strade a Dyffryn Aman Hyfforddiant Addysgwyr Rhyw yn ystod mis Medi a mis Hydref, 2015. Ers hynny mae'r disgyblion Blwyddyn 12 wedi cynllunio a chyflwyno sesiynau i'w cyd-ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9. Cafodd cyfanswm o bum deg chwe disgybl Blwyddyn 9 o Ysgol y Strade hyfforddiant Mentora Cymheiriaid, gan gychwyn ar eu rôl fel Mentoriaid ar ôl mynd i Flwyddyn 10 ym mis Medi, 2015.

**Llyfr stori Hari, Heti a'r Galon Hapus**

Cafodd y llyfr stori dwyieithog hwn ei gynhyrchu mewn partneriaeth â'r Cynllun Iaith a Chwarae i blant Cyn Oed Ysgol, plant yn y Cyfnod Sylfaen a'u rhieni. Ei ddiben yw codi ymwybyddiaeth o beryglon mwg ail law, deddfwriaeth newydd ar smygu mewn ceir a'r ymgyrch dros 'Feysydd Chwarae Di-fwg'. Mae hefyd yn rhoi gwybod i rieni ble gallan nhw gael help i geisio rhoi'r gorau i smygu a sut i leihau'r niwed i'w plant os ydynt yn methu rhoi'r gorau iddi. Mae'n grymuso plant drwy eu haddysgu ynglŷn â'u hawl i fyw, teithio a chwarae mewn 'amgylchedd di-fwg'.

**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**

Gwahoddodd yr Ysgol Cyfiawnder Cymdeithasol a Chynhwysiant ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant y Cynllun Ysgolion Iach i roi darlith ar Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol i fyfyrwyr sy'n astudio ar y cwrs gradd Ieuenctid. Roedd y ddarlith yn cynnwys agweddau o'r sialensiau meddyliol ac emosiynol a brofir gan blant a phobl ifanc, yn ogystal â dulliau ymdopi afiach.

**Nosweithiau Rhieni**

Cawsom wahoddiad gan dair ysgol gynradd (Cross-Hands, Drefach ac Abernant) i roi cyflwyniadau ar faterion Diogelwch ac Amddiffyn Plant. Rhoesom gyflwyniadau ar Berthnasoedd Iach, Bwlio a Chyffwrdd Priodol ac Amhriodol, gan gyfeirio at adnodd addysgu Llywodraeth Cymru, 'Tyfu i Fyny'.

3.6 **Criw Celf**

Nod trosfwaol y prosiect peilot tair blynedd hwn oedd darparu dosbarthiadau meistr allgyrsiol o safon uchel i ddisgyblion ysgol Mwy Galluog a Thalentog yn Sir Gaerfyrddin sy'n rhagori yn y celfyddydau gweledol, o'r lefel gynradd hyd at lefel Safon Uwch.

Roedd y prosiect yn cydnabod pwysigrwydd meithrin ac annog ein pobl ifanc er mwyn iddynt ymwneud â gweithgareddau celfyddydol safonol a chael eu cynnwys ynddynt. Mae hyn yn ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, yn codi'u dyheadau ac yn darparu profiadau yn y celfyddydau gweledol nad ydynt ar gael yn aml mewn ysgolion.

Mae'r gwaith partneriaeth cryf rhwng orielau, artistiaid, colegau celf a'r adran addysg wedi bod yn fodel o ymarfer da ac yn enghraifft o sut y gall cydweithio llwyddiannus drwy bartneriaeth weddnewid y cyfleoedd i'n pobl ifanc a'u profiadau.

Rhoddwyd cyfle i'r rhai fu'n cymryd rhan i ddatblygu'u dealltwriaeth a'u profiad o'r celfyddydau gweledol, crefftau a dylunio drwy gyfrwng gweithdai, dosbarthiadau meistr, gwaith datblygu portffolio a chyfleoedd i weithio gydag artistiaid proffesiynol. Ar ddiwedd pob blwyddyn bu'r tri grŵp yn arddangos eu gwaith yn yr orielau a oedd yn cymryd rhan a'r coleg celf. Ymwelodd y disgyblion yn y grŵp UG/Safon Uwch hefyd â stiwdios artistiaid i'w cyflwyno i arferion a phrofiadau proffesiynol amryw o artistiaid gweledol. Ymwelodd myfyrwyr hŷn ag arddangosfeydd yng Nghaerdydd, Bryste a'r Young Designers Show yn Llundain.

## 3.7 Gwasanaeth Cwnsela Mewn Ysgolion Sir Gaerfyrddin

Mae Sir Gaerfyrddin wedi comisiynu Area 43 i reoli a darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion sydd wedi'i achredu'n broffesiynol ar gyfer pobl ifanc o flwyddyn 6 i 18 oed. Mae defnydd y disgyblion o'r gwasanaeth wedi parhau i fod yn dda. Defnyddiodd 916 o ddisgyblion y gwasanaeth yn y flwyddyn academaidd hon gan gael 5.7 o sesiynau cwnsela ar gyfartaledd. Roedd 13 o'r rhain yn ddisgyblion blwyddyn 6. Mae'r mesurau Deilliannau Craidd Pobl Ifanc yn dangos bod lefel y gofid emosiynol yn aml yn symud o gymedrol i ychydig yn uchel, ac mae gwerthusiad y bobl ifanc eu hunain o'r gwasanaeth yn eithriadol o gadarnhaol.

Mae bron pob un o'r plant a'r bobl ifanc yn adrodd yn ôl bod eu hyder wedi gwella o ganlyniad i'r sesiynau cwnsela, eu bod yn llai pryderus, yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth a'u bod yn fwy abl i ymdopi â'r materion y maent yn eu hwynebu. Roedd a wnelo'r prif faterion y rhoddwyd sylw iddynt drwy gwnsela â theulu a hunan werth. Mae staff yr ysgolion yn dal yn fodlon iawn â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

## 3.8 Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Sir Gaerfyrddin

Eleni, gwelwyd cynnydd sylweddol unwaith eto yn ein poblogaeth o siaradwyr y mae'r Saesneg yn Iaith Ychwanegol (SIY) iddynt. Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu 45 o ysgolion cynradd a 10 ysgol uwchradd. Ar hyn o bryd mae gennym fwy na 1,105 o blant ar ein cofrestr SIY, ac mae'r nifer wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn (87 yn 2003/4).

Ar hyn o bryd mae gennym 4 o athrawon SIY arbenigol a Chynorthwyydd Addysgu Pwyleg Dwyieithog. Yn anffodus, oherwydd dileu cyllid craidd rydym wedi gweld gostyngiad yn ein lefelau staffio. O ganlyniad, rydym wedi gorfod blaenoriaethu'r gefnogaeth i ddysgwyr SIY ar sail angen. Rydym yn dal i gefnogi pob plentyn sydd ar gam A a B ar y gofrestr SIY a'r rhan fwyaf o fyfyrwyr cam C yn yr ysgolion Uwchradd. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r rhai sy'n dod i gysylltiad dyddiol â dysgwyr SIY i'w helpu i ddatblygu strategaethau cynhwysol ac i gyrraedd eu potensial. Rydym yn cynnig cefnogaeth i ysgolion sy'n paratoi ar gyfer newydd-ddyfodiaid ac ysgolion sydd â dysgwyr mwy datblygedig. Rydym yn gweithio gyda Chydlynwyr SIY i fonitro cynnydd ein dysgwyr a helpu i asesu disgyblion, gosod targedau a chynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant staff a phecynnau ac yn cynnig hyfforddiant mewn swydd. Mae'r tîm Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr ysgolion, yn anelu at gyflawni'r amcanion cyffredin canlynol:

- Cynnydd parhaus ac amlwg o ran dysgu Saesneg / Cymraeg
- Datblygiad personol gwell

- Disgyblion yn gadael yr ysgol gyda chymwysterau a rhagolygon da o ran cyflogaeth.

Rydym wedi darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau ysgogi dros y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu sgiliau staff ymhellach mewn meysydd allweddol er mwyn codi cyflawniad ein dysgwyr. Rydym wedi canolbwyntio yn arbennig ar y defnydd o dechnoleg i helpu'n dysgwyr i wneud cynnydd. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Cheredigion a Sir Benfro i rannu arbenigedd hyfforddi.

### 3.9 **Gwasanaeth Cyrhaeddiad Teithwyr Sir Gaerfyrddin**

Mae'r gwasanaeth yn dal i gefnogi plant teithwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'u llythrennedd a'u rhifedd er mwyn gwella'u cyrhaeddiad addysgol. Eleni mae nifer fach o blant oedran uwchradd wedi cael eu tynnu o'r ysgol i gael eu haddysgu gartref. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag ysgolion, teuluoedd, Swyddogion Lles Addysg, yr adran tai a Gwasanaethau Teithwyr Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg, yn mynychu'r ysgol ac yn cyrraedd ei botensial academaidd.

Mae plant o'r cymunedau Teithwyr wedi cymryd rhan mewn 'Fforwm i Deithwyr Ifanc' sy'n cael ei redeg gan Achub y Plant. Mae'n rhoi'r cyfle i bob disgybl o gymuned y Teithwyr, o bob awdurdod ar draws Cymru, i gael mynegi barn. Maent wedi bod i 3 fforwm yn ystod y fwlyddyn ac wedi gweithio gydag asiantaethau allanol, YMCA Abertawe a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Mae'r plant hefyd wedi cael profi gweithgareddau allgyrsiol – yng Nghaeriw buont yn hela crancod, yn gwneud pebyll plyg a stiw cwningen, ac yn Abertawe buont yn dringo coed, yn gwneud tanau gwersyll ac yn cerfio pren.



Swyddfa'r Comisiynydd Plant, Abertawe



Neuadd Dewi Sant, Caerdydd

Dechreuodd dau aelod o grŵp teithwyr Sir Gaerfyrddin ymwneud â chynllunio'r fforymau hyn ac yn ddiweddar aethant i gyfarfod yn swyddfa'r Comisiynydd Plant yn Abertawe.

Ar ddechrau'r flwyddyn cymerodd dau deulu Teithwyr o Goedcae ran mewn prosiect gydag Amgueddfa Abertawe, Edrych ar Fywyd fel Sipsi. Bu'r plant yn edrych ar draddodiadau o'r gorffennol a sut mae teuluoedd yn byw heddiw, buont yn ymchwilio i'w teuluoedd nhw a chynyrchiasant lyfrau o luniau o dan y teitl 'The Gypsy Way'. Cafodd y llyfr ei arddangos wedyn yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd fel rhan o ddigwyddiad Mis Hanes Sipsiwn Roma ym mis Mehefin. Ar hyn o bryd mae'r llyfr a'r gwaith a gynhyrchodd y plant yn cael eu harddangos yn Amgueddfa Abertawe tan Ionawr 10$^{fed}$ 2016.

### 3.10 **Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

<u>Cefnogi ysgolion gyda Diwygiadau ADY</u>

Mae hyfforddwyr sy'n canolbwyntio ar unigolion wedi helpu ysgolion i ddod yn gyfarwydd ag offer sy'n canolbwyntio ar unigolion a'u defnyddio. Datblygwyd adnoddau defnyddiol i ysgolion fel Proffiliau Un Dudalen a pro forma Cynllun Datblygu Unigol.

Datblygwyd Ysgolion Blaenllaw i weithredu fel enghreifftiau o'r arferion gorau ym maes Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Unigolion ac i hyrwyddo'r offer sy'n ofynnol i gefnogi diwygiadau ADY yn y dyfodol. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn datblygu Grŵp Rhwydweithio Cymorth ym maes Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Unigolion ac yn trefnu cyfarfodydd cefnogi ar gyfer hyfforddwyr.

Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ar hyd y flwyddyn i gasglu barn staff ysgol am Fil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac i gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad.

<u>Gwasanaethau Cefnogi Ymddygiad</u>

Cafodd gwaith ymgynghori a gwerthuso ei wneud ynglŷn â'r gwasanaethau cymorth ymddygiad presennol i edrych ar beth sy'n gweithio, beth y mae angen ei ddatblygu ymhellach a beth y mae angen ei newid. Datblygwyd cynnig i ailfodelu'r gwasanaethau cefnogi ymddygiad er mwyn cynyddu capasiti ysgolion i ymyrryd yn gynnar drwy ddod â'r Tîm Cymunedol Cefnogi Ymddygiad a Chanolfan Dydd Rhydygors ynghyd yn un gwasanaeth.

<u>Hyfforddiant</u>

Ymysg yr hyfforddiant arall sy'n cael ei gyflwyno ar draws ysgolion a gwasanaethau yn y sir mae ymwybyddiaeth o awtistiaeth, straeon cymdeithasol, y dull 'gweithio dros', Pryder ac Awtistiaeth a System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS).

Garreglwyd – ysgol a datblygiadau preswyl

Bydd darpariaeth addysgol Garreglwyd yn newid i ddarpariaeth awtistiaeth arbenigol newydd fel rhan o'r ysgol uwchradd sydd newydd ei chodi ym Mro Dinefwr a chaiff ei hailenwi'n Ganolfan y Cothi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cynllunio ar gyfer trosglwyddo'r disgyblion wedi cynnwys rhieni, disgyblion a gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaeth. Pan fyddant wedi'u cwblhau bydd gan y cyfleusterau y capasiti i gefnogi hyd at 30 o ddisgyblion oedran uwchradd ar y sbectrwm awtistiaeth.

Bydd Darpariaeth Awtistiaeth Breswyl Garreglwyd yn aros yn ei lleoliad presennol yng Nghwm Gwendraeth. Mae ymweliadau cynllunio a pharatoi wedi digwydd gydag golwg ar gefnogi dau ddisgybl ag awtistiaeth, sydd ar hyn o bryd mewn unedau preswyl arbenigol allan o'r sir, i ddychwelyd i Garreglwyd cyn bo hir. Bwriedir ehangu'r ddarpariaeth hon ymhellach yn 2016/17.

## 3.11 **Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin**

Mae Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd perfformio o ansawdd uchel i ddisgyblion ein sir. Yn ystod 2014-2015:

- Mae nifer y disgyblion wedi aros yn uchel gydag ychydig o dan 6,000 yn cael darpariaeth wythnosol ar ffurf gwersi offerynnol, hyfforddiant lleisiol neu gefnogaeth gwricwlaidd.
- Daeth Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin yn 3ydd o 61 yn Arolwg Ysgolion 2015.
- Cynhaliodd y gwasanaeth 5 ensemble Lefel Ganolradd (Cyfnod Allweddol 3) yn arwain at yr Ŵyl Gerdd Ganolradd a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth ym mis Mawrth 2015.
- Cynhaliodd y gwasanaeth 6 ensemble Lefel Uwch (Cyfnodau Allweddol 4 a 5) yn arwain at yr Ŵyl Gerdd Uwch a gynhaliwyd yn Theatrau Ffwrnes a'r Lyric ym mis Mawrth 2015.
- Cynhaliodd y gwasanaeth 14 ensemble Iau (Cynradd) a gymerodd ran yn yr *Ŵyl Proms Iau* a gynhaliwyd ar ffurf pedwar cyngerdd yn Theatr Ffwrnes ym mis Mehefin 2015. Cymerodd dros 2,000 o ddisgyblion cynradd ran yn 2014-2015 – record i Wasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin!
- Cynrychiolydd dros 60 o ddisgyblion uwchradd Sir Gaerfyrddin yn Ensembles y Chwe Sir a gynhelir gan gonsortiwm ERW.
- Cynrychiolodd 27 o gerddorion ifanc Sir Gaerfyrddin ar Lefel Genedlaethol yn perfformio gyda Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.



- Aeth y Band Chwyth Hŷn a’r Band Llinynnol Hŷn ar daith pedwar diwrnod hynod lwyddiannus yn cynnal cyngherddau yng Ngwlad Belg ym mis Mehefin 2015.



- Penodwyd cyn ddisgybl o Ysgol Bro Myrddin a Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin, Anne Denholm, yn Delynores Swyddogol Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru.

3.12 **Arwain y Dysgu**

**Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ysgolion ERW:**
Mae ein harweinwyr canol a’r rhai sy’n ymgyrraedd at arwain yn dal i elwa o Raglen Datblygu Arweinyddiaeth Ysgolion ERW.
Mae astudio meysydd allweddol o'r agenda addysg yng Nghymru ac yn rhyngwladol yn hwyluso arfer da a gwella ysgolion drwy amrywiaeth o strategaethau. Gan ganolbwyntio'n glir ar Safonau Arweinyddiaeth, mae’r rhaglen yn parhau i fod yn rhagflaenydd defnyddiol iawn i rolau arwain uwch a darpariaeth CPCP. Gan weithio mewn partneriaeth agos gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, mae’r holl ymgeiswyr llwyddiannus yn graddio gyda Thystysgrif Raddedig mewn Datblygiad Proffesiynol.

**Darpariaeth CPCP (Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth):**
Rydym yn darparu arweiniad a chymorth i ymarferwyr ym mhob sector sy'n dymuno rhoi cynnig ar raglen CPCP. Rydym yn mynd ati’n rhagweithiol i adnabod arweinwyr y dyfodol, gan weithio mewn partneriaeth agos â’n penaethiaid ac uwch arweinwyr fel rhan o’n rhaglen ‘cynllunio olyniaeth’.

**Ystadegau graddio Rhaglen CPCP Sir Gaerfyrddin:**

| Carfan | Cynradd | Uwchradd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2011/12 | 1 | 2 | 3 |
| 2012/13 | 5 | 2 | 7 |
| 2013/14 | 2 | 1 | 3 |
| 2014/15 | 3 | - | 3 |
| 2015/16 | 6 | - | Tymor Haf ’16 |

**Cefnogaeth a Datblygiad Proffesiynol i Benaethiaid sydd Newydd eu Penodi:**

Rydym yn dal i gefnogi penaethiaid sydd newydd eu penodi ar ffurf –

- Cefnogaeth mentor proffesiynol
- Cyfarfodydd rhwydwaith lleol*
- Seminarau/gweithdai ERW

*ceir cyfle yn y cyfarfodydd i drafod a chydweithio â phartneriaid o’r awdurdod lleol e.e. Adnoddau Dynol, Cynhwysiant, Gwella Ysgolion, Cyllid, Diogelu, Iechyd a Diogelwch ac ati.

**Datblygiad proffesiynol i Benaethiaid ac Uwch Arweinwyr:**

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i gefnogi a hyrwyddo rhannu arfer da yn effeithiol yn yr ALl a'r Rhanbarth. Mae'r cydweithio rhanbarthol hwn ar sawl lefel wedi hwyluso datblygu proffesiynol a gwella ysgolion drwyddynt draw yn effeithiol. Mae Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr yn Sir Gaerfyrddin wedi profi a chyfrannu at amryw o weithgareddau gan gynnwys:

- Rolau Pennaeth Gweithredol: arwain ysgolion mewn partneriaeth neu ffederasiwn
- Gwaith arloesi cwricwlaidd: arwain arloesi cwricwlaidd fel Arweinwyr Dysgu rhanbarthol (rhannu arfer da - yn enwedig ym maes llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi)
- Gwaith arwain wedi’i gomisiynu: ymgymryd â gweithgareddau cefnogi a herio yn ein hysgolion e.e. gweithio gydag ysgolion sy’n achosi pryder, Ymweliadau Craidd ERW ac ati
- Cefnogi Rhwydweithiau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol e.e. datblygu Rhaglenni Arweinyddiaeth, Adolygu a Datblygu Ymarfer, Gwasanaethau Llywodraethwyr, Grwpiau Cyfeirio Proffesiynol y Penaethiaid ac ati

- Grŵp DEPNET (Rhwydwaith y Dirprwy Benaethiaid Uwchradd): mae'r fframwaith hwn sydd newydd ei sefydlu yn cysylltu dirprwy benaethiaid o'n holl ysgolion uwchradd ac yn eu cael i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau hunan-wella fel modd o godi safonau.

## 4. Egluro jargon

| Jargon | Ystyr |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| Area 43 | Elusen Prosiect Ieuenctid |
| CA | Cyfnod Allweddol |
| CPCP | Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (gorfodol yng Nghymru) |
| CS | Cyfnod Sylfaen |
| Dangosyddion Ansawdd | Mae Estyn yn defnyddio deg 'Dangosydd Ansawdd' yn ei Fframwaith Arolygu |
| DCS | Dangosydd Cyfnod Sylfaen – ar gyfer disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 2 sy'n cyflawni Deilliant 5 neu'n uwch mewn Iaith (Cymraeg neu Saesneg), Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol |
| DEPNET | Rhwydwaith y Dirprwy Benaethiaid Uwchradd |
| DPC | Dangosydd Pynciau Craidd – ar gyfer disgyblion ar ddiwedd:<br>CA2 (Blwyddyn 6) – cyflawni Lefel 4 neu'n uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth<br>CA3 (Blwyddyn 9) – cyflawni Lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth |
| ERW | Ein Rhanbarth ar Waith (ein Consortiwm Rhanbarthol) |
| L2 | Lefel 2 (5 Safon Uwch graddau A* - C) |
| L2c | Lefel 2 cynhwysol (5 Safon Uwch, A* - C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg) |
| SIY | Saesneg fel Iaith Ychwanegol |
| Trothwy Lefel 3 | 2 Safon Uwch neu'n fwy neu gymhwyster cyfatebol |